**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 15 Rhagfyr 2020 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is Gadeirydd), Alan Pritchard, Meirwen Lloyd, Richard Robinson, Iola Parry, Gwion Llwyd, Dylan Jones, Hefin Jones, Beca Brown, Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Martin Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Haf Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Aelodau o'r cyhoedd:** Neb

**Clerc:** Meirion Jones

**712. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**713. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**714. Datgan buddiant personol.**

Y rhain i'w datgan a'i nodi fel yn briodol

**715. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 o Dachwedd 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**716. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Avril Jones a Meirwen Lloyd am drefnu casgliad ar gyfer Clifford Williams a trefnwyd iddo dderbyn cloc fel arwydd o ddiolch am ei wasanaeth i'r cyngor a tusw o flodau i Mrs Williams

**717. I dderbyn sylwadau gan Gyngor Tref Nefyn ar greu pecyn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer prynwyr tai yn yr ardal (Cyng Haf Williams).**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Haf Williams ac yn dilyn penderfyniad y cyngor yn ei gyfarfod fis Tachwedd, adroddwyd gan y clerc ei fod wedi cysylltu a Cyngor Tref Nefyn i gefnogi eu ymgyrch ar becyn ymwybyddiaeth. Dyma'r ateb a dderbyniwyd. (Bydd 'Pecyn Ymwybyddiaeth' yn eitem ar gyfer cyfarfod Ionawr 2021, pan bydd y Cynghorydd Haf Williams yn gallu bod yn bresennol).

'*Rydym yn gwerthfawrogi eich ymateb, nid oes pecyn eto, ond mae yn y broses o gael ei wneud*'

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**718. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyfarfod. Ymysg yr eitemau sydd wedi eu ystyried gan y pwyllgor oedd

a) Trafodaethau gyda'r Eglwys yng Nghymru

Nodwyd fod llythyr wedi mynd tuag at yr Eglwys i'w prif swyddfa i nodi beth yw gofynion y cyngor yn y broses o gymryd cyfrifoldeb am fynwent yr Eglwys. Nodwyd mai'n debygol ar ôl derbyn eu ymateb, bydd yn ofynnol i'r cyngor gael barn gyfreithiol ei hyn ar y trosglwyddiad oherwydd mae yn faes sydd angen arbenigedd yn enwedig ar hyn o bryd tra nad ydi'r cyngor yn ymwybodol o fwriad yr Eglwys yng Nghymru o beth i'w wneud gyda'r adeilad. Nodwyd ymhellach fod darn o'r fynwent wedi ei gofrestru gyda'r Eglwys ond fod darn heb ei gofrestru o gwbl. Ymysg y gofynion a dynnwyd i sylw'r Eglwys oedd fod yr holl dir yn cael ei gofrestru i Gyngor Cymuned Llanrug

b) Nodwyd fod y bedd ble roedd twll wedi ymddangos yno bellach wedi ei lenwi

c) Adroddwyd fod cais wedi dod i law i osod mainc yn y fynwent ac fod y fainc yn gweddu gyda rhai sydd yno yn barod.

d) Y pwyllgor i gyfarfod yn fuan yn y flwyddyn newydd ar gyfer ystyried ei nod ac amcanion ar gyfer y flwyddyn 2021 / 2022

**Penderfynwyd:** Diolch a derbyniwyd yr adroddiad

**719. I dderbyn adroddiad gan Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod llawn o'r cyngor ddiwethaf ond byddai yn rhaid cynnal un yn y flwyddyn newydd

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**720. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Hamdden a Mwynderau yn cynnwys diweddariad ar gystadleuaeth addurno Nadolig.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden, fod y pwyllgor wedi bod yn brysur dros y mis diwethaf.

Ymysg gweithgareddau'r pwyllgor roedd gwaith wedi ei wneud i hysbysu cystadleuaeth addurno tŷ ar gyfer y Nadolig. Adroddwyd fod 12 wedi ceisio gyda'r enillydd yn cael gwobr o daleb £30 a'r ail, taleb o £20 o siop gigydd

Wavell's. Nodwyd fod pob ymgeisydd arall wedi derbyn bocs o siocled fel arwydd i ddiolch iddynt am gystadlu.

Roedd rhai o aelodau'r pwyllgor wedi cychwyn allan i feirniadu ac enillydd y wobr gyntaf oedd 21 Rhos Rhug, Llanrug ac fe rannwyd yr ail wobr rhwng 20 a 21 Dolafon.

Adroddwyd fod y coed Nadolig wedi eu gosod yn Llanrug ac yn Cwm y Glo.

Cafwyd cyfarfod cychwynnol ar gyfer trefniadau Nadolig 2021 oherwydd adroddwyd na all y trefniadau presennol fod yn dderbyniol ar gyfer y dyfodol a bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn fuan yn y flwyddyn newydd i drafod yr opsiynau.

Nodwyd fod ein cais am grant ar gyfer offer campfa allanol yn Cwm y Glo wedi mynd fewn.

Adroddwyd fod y gwaith o dorri coed yn Cwm y Glo bron a'i orffen.

Nodwyd fod y gwaith o dacluso Afon Ogwen wedi gwblhau ond fod angen tynnu sylw Cyngor Gwynedd tuag at gyflwr llwybr sydd yn mynd o ystâd Glanffynnon tuag at y ffordd A4086 oherwydd. Nodwyd fod angen cofrestru tri llwybr arall.

Adroddwyd fod y grit wedi cyrraedd ac mae'n cael ei storio nawr yn depo Menter Fachwen, Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad ac i'r criw aeth allan i feirniadu'r gystadleuaeth addurno Nadolig.

**721. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa trosglwyddant cyfrifoldeb am fynwent Eglwys Saint Mihangel, Llanrug i'r cyngor.**

Gwêl eitem 718 uchod

**722. I dderbyn diweddariad ar gynllun Fairshare a trefniadau dros y Nadolig**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fod yn cynllun yn parhau ac eglurodd ei fod yn codi'r bwyd i fyny yn Bangor ar ddydd Gwener ac yna ei gludo i hen ysgol gynradd Cwm y Glo ble mae'n cael ei ddosbarthu gan wirfoddolwyr, sydd yn aelodau o'r cyngor cymuned. Adroddwyd mai dros y Nadolig, bydd y trefniadau yn newid ychydig gan bydd y bwyd yn cyrraedd ar ddydd Mercher a bydd rhywun yn gorfod mynd i Lerpwl i'w nol. Mae'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones wedi cytuno i fynd i'w nol i Lerpwl dros gyfnod y Nadolig a bydd trefniadau dosbarthu'r bwyd yn newid o gyfarfod yn yr Ysgol ar nos Wener, i gyfarfod prynhawn dydd Mercher.

Adroddwyd hefyd fod nwyddau wedi eu rhoi gan siop Gigydd Wavell's a diolchwyd iddynt hwy am eu cyfraniad hael.

**723. I dderbyn diweddariad ar faterion yn ymwneud a iechyd a diogelwch (Cyng Phil Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, fod trefniadau ar waith i ddrafftio polisi ar gyfer Iechyd a Diogelwch ac fod gwaith ar hwn yn cael ei wneud gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Adroddwyd ymhellach fod archeb wedi ei roi fewn am gardiau adnabod, ar gyfer pob aelod.

Adroddwyd fod twll gyda pwll o ddŵr ger bron 1 Glanmoelyn ac mae'n bosib fod y gwter wedi flocio

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth a'r cynghorydd Berwyn Parry Jones i adrodd am hyn i Adra.

**724. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Addysg Ôl 16**

Dim ond i atgoffa pawb fod yr ymgynghoriad anffurfiol yn dod i ben wythnos i heddiw sef 22 Rhagfyr.

**Cyfarfod y Cyngor Llawn**

Penderfynwyd i ofyn i'r Cabinet ystyried a fyddai yn iawn cynyddu y lefel Trethi ar ail gartrefi a tai gwag i 100%. Y ffigwr sydd yn cael ei ddefnyddio ar y funud yw 50%. O be dwi'n ddallt mi fydd yna ymgynghoriad ar hwn.

Hefyd roedd penderfyniad i dderbyn y Cynllun Busnes sydd yn mynd i ddod a'r Cynllun Twf Gogledd Cymru yn fyw, hynny yw yr prosiectau i gyd.

**Cyfarfod Pwyllgor Craffu Cymunedau**

Adroddiad ar Rheoli y defnydd o dai fel tai gwyliau. Gofyn i'r Cabinet ofyn ar frys i Llywodraeth Cymru cynnwys dosbarth defnydd ychwanegol ar gyfer llety gwyliau tymor byr. Wedyn fyddai yn bosib i'r Awdurdod ddweud fod angen caniatâd cynllunio cyn y fedr unrhyw dŷ gael ei droi yn lety gwyliau. Hefyd ddylai y Llywodraeth gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer llety gwyliau tymor byr. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol wedyn i'w weithredu, i sicrhau fod safonau yn cael eu cadw .

**Cyfarfod y Cabinet.**

Roedd Cynllun Gweithredu yr Adran Tai yn dod ger bron y cabinet i'w gymeradwyo.

Mae 33 o gynlluniau i gyd gyda gwariant oddeutu £77miliwn dros 5 mlynedd.

Bydd rhain yn arwain at ddarparu dros 1500 o gartrefi fforddiadwy i drigolion Gwynedd, a cynorthwyo dros 3000 o bobl i allu parhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

**Yn Lleol**

**Biniau baw cŵn**, wedi cael cais i roi bin baw cŵn pen y garej o Cwm y glo, oherwydd bobl yn defnyddio biniau y garej i roi y baw ynddynt. Mae na fin ochor y skate park o'r pentref ond ddim yn ochor Llanrug fel petai. Felly os fydd y Cyngor Cymuned yn archebu mwy o finiau cais i roi un ochor Llanrug o Cwm y glo

**Gor yrru allt Ceunant**.

Wedi cael cais i symud yr arwydd 30mya ymhellach i fyny yr allt, llawer o "near misses" wedi bod fel dwi'n dallt, hefyd ydi'n bosib rhoi unrhyw fesurau tawelu traffig i mewn hefyd.

**725.** **I dderbyn adroddiad ar drefniadau goleuadau Nadolig ar gyfer 2021 ac i gymeradwyo cyllideb ar gyfer y gwaith paratoi a strwythurol.**

Adroddwyd nad ydi trefniadau presennol yn foddhaol o bell ffordd ac fod angen edrych ar sut i wella'r drefn a'r offer ar gyfer 2021. Bydd y pwyllgor hamdden yn edrych fewn i hyn yn fuan yn mis Ionawr 2021.

**726.** **I dderbyn adroddiad ar weithgareddau yn ymwneud a'r clwb ieuenctid**

Adroddwyd fod sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal yn rhithiol a sesiynau wedi eu cynnal yn wythnosol o'r 14ain o Fedi 2020 hyd 21 o Rhagfyr 2020. Roedd rhaglen gymysg wedi ei pharatoi gan staff y clwb, gyda'r gweithgareddau yn amrywio yn cynnwyd chwarae gemau, gwersi coginio, gwneud addurniadau Nadolig, ynghyd a paratoi anrhegion Nadolig ar gyfer trigolion Hafan Elan.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**727.** **Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**Rhif y Cais:** C20/1028/23/MG

**Math o Gais:** Materion a Gadwyd yn ôl

**Bwriad:** Cais cyflwyno manylion a gadwyd yn ôl o dan ganiatâd rhif C19/0729/23/LL yn ymwneud a llechi, gorffeniadau allanol, mynediad, parcio, a chynllun draenio

**Ymgeisydd:** Mr a Mrs Emlyn Jones

**Cyfeiriad:** Tir Ger Bryn Celyn, , Lon Groes, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AF

**Cyfeirnod Grid:** 253760.43, 363691.7

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad i’r cais ar yr amod fod yr amodau eraill gwreiddiol yn cael eu cadw atynt.

**728. I ystyried cais gan dim pêl droed dan 10 Llanrug ar gyfer allwedd ar gyfer cae Nant y Glyn.**

Adroddwyd fod y cais wedi dod i law gan Mrs Donna Roberts-Jones ar ran tîm uchod am allwedd ar gyfer cae Nant y Glyn. Nodwyd fod y tîm dan 10 mae hi yn ymwneud ag ef, yn defnyddio cae Nant y Glyn ar gyfer eu gemau. Wrth gael allwedd byddai yn galluogi ceir barcio yno yn hytrach na parcio o flaen tai.

**Penderfynwyd:** Cytuno i ganiatáu allwedd ond ar yr amod ei fod yn cael ei gadw gan Mrs Roberts-Jones ac nad ydi hi i’w drosglwyddo i unrhyw berson arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 19 Ionawr 2021